

Pwrpas:

Disgrifio nodweddion pethau; rhoi gwybodaeth mewn modd diduedd


Cynulleidfa

Rhywun sydd am wybod rhywbeth

Dulliau o baratoi / cynllunio:

- Athro/athrawes yn modelu sut i ymchwilio i ffeithiau, eu dewis a'u rhoi mewn trefn resymegol
- Dysgwyr yn edrych ar ffynonellau cyfair neu enghreifftiau o'r math o ysgrifennu y byddant yn ei gyflawni
- Dysgwyr yn cymryd rhan mewn gwaith llafar fel bod eu dealltwriaeth yn dod yn gliriach
- Dysgwyr yn casglu ac yn rhannu gwybodaeth a threfnu ffeithiau mewn clystyrau gan ddefnyddio diagram corryn, grid cymharu, diagram Venn, map wedi'i labelu, llun, cynllun neu fap meddwl
- Dysgwyr yn penderfynu ar y ffordd fwyaf resymegol o gyflwyno'r ffeithiau

Gwybodaeth/adroddiadau anghronolegol



Nodweddion ieithyddol nodweddiadol:

- Amser presennol y ferf
- Trefnu fesul thema yn hytrach na threfn gronolegol
- Cyffredinol
- Ffurfiol ac amheronol
- Defnyddio dulliau trefnu - paragraffau, rhestrau wedi'u rhifo, is-benawdau
- Defnyddio diagramau neu ddarluniau o bosibl
- Geirfa dechnegol
- Amrywio'r cysyllteiriau a dechrau brawddegau er mwyn ysgrifennu'n gydlynol

Strwythur nodweddiadol:

- Trefn resymegol
- Bydd paragraffau yn aml yn dechrau â brawddeg bynciaol
- Wedi'i drefnu, yn aml, fesul categori gydag is-bennawd


Cyd-destunau posib:

- Darn ar gyfer llyfr cyfair dosbarth sy'n amlinellu nodweddion, patrymau bywyd cyffredinol a chynefinoedd planhigion neu anifeiliaid
- Agweddau ar fywyd bob dydd mewn cyfnod hanesyddol
- Disgrifiad o leoliadau a nodweddion daearyddol
- Cymharu ddoe a heddiw, e.e. dulliau teithio
- Taflenni gwybodaeth yn gysylltiedig â'r gwaith mewn maes cwricwlwm
- Disgrifio nodweddion un o grefyddau'r byd
- Poster ynghylch digwyddiad yn y dyfodol, e.e. drama ysgol neu ddigwyddiad i godi arian at achos da

Meini prawf llwyddiant

- Ydy'r ysgrifennu'n cynnig y wybodaeth angenrheidiol?
- Ydy'r wybodaeth yn glir ac yn fanwl-gywir?
- Oes trefn resymegol i'r ysgrifennu?
- Ydy cywair yr ysgrifennu yn briodol i gynulleidfa gyffredinol, anhysbys?
- Oes cofnod o'r ffynonellau a ddefnyddiwyd i gasglu'r wybodaeth, e.e. llyfryddiaeth, os yw hynny'n briodol?

Enghreifftiau o destunau gwybodaeth / adroddiadau anghronolegol – y nodweddion cyffredin



Amser presennol oni bai ei bod
yn wybodaeth hanesyddol

Trefn resymegol

Iaith ffurfiol,
amhersonol

Geirfa dechnegol

Paragraffau yn aml yn
dechrau â brawddeg
bynciol

Cysyllteiriau amrywiol

Defnyddio diagramau
a darluniau o bosibl

Trefnu fesul thema yn
hytrach na threfn
gronolegol

Dulliau trefnu fel
paragraffau, rhestrau
wedi'u rhifo, is-
benawdau

Hanes Cwm Tryweryn

Yn 1965 gwnaeth pobl ardal Capel Celyn, ger y Bala, adael eu cartrefi am y tro olaf. Roedd pentref Capel Celyn mewn cwm o 800 erw o dir ffrwythlon, ac roedd Cyngor Dinas Lerpwl eisiau boddi'r cwm er mwyn creu cronfa ddŵr ar gyfer dinas Lerpwl.

Roedd llawer iawn o bobl yn teimlo'n gryf am hyn. Teimlai pobl Lerpwl fod rhaid iddyn nhw gael dŵr i'w yfed, gan fod y ddinas yn tyfu ac yn datblygu yn dilyn yr Ail Ryfel Byd. Doedd pobl Capel Celyn ddim eisiau gadael eu cartrefi a cholli eu ffordd draddodiadol o fyw.

Aeth bobl Capel Celyn i Lerpwl i brotestio am hyn, ond wedi llawer iawn o ddadlau, roedd llywodraeth Prydain wedi penderfynu cefnogi cyngor Lerpwl. Teimlai rhai pobl yn flin iawn. Cafodd un person ifanc, o'r enw Emyr Llywelyn ei anfon i'r carchar am osod dyfais ffrwydro yn ymyl safle'r argae. Gorfodwyd iddynt adael eu cartrefi, eu hysgol, eu capel, mynwent a swyddfa'r post. Cafodd 12 fferm ei boddi. Boddwyd y cwm yn gyfan gwbl. Cost y prosiect oedd £20, 000 000.

Yn 2005, 40 mlynedd ar ôl creu cronfa ddŵr Tryweryn, gwnaeth cyngor dinas Lerpwl ymddiheuro am yr hyn wnaethon nhw. Erbyn heddiw mae llawer o gronfeydd dŵr ar hyd a lled Cymru, ond mae hanes boddi cwm Tryweryn dal yn fyw i'r Cymry.



Meini prawf llwyddiant

Faint o'r nodweddion hyn gallwch chi eu darganfod yn yr enghreifftiau?
I fod yn llwyddiannus beth sydd angen ichi ei wneud yn eich adroddiad?

Datblygwyd gan Lisa Hearne a Mari Owen o
Sgerbydau Sue Palmer a "Datblygu uwch sgiliau
llythrennedd ar draws y cwricwlwm" (LICC; Mawrth
2010).